

MÔN a MENAI



Bwriad prosiect Môn a Menai yw galluogi cymunedau i wella eu mannau gwyrdd cymunedol. Trwy gefnogi gweithredu lleol, nod y cynllun yw trawsnewid ardaloedd preswyl i fod yn fannau mwy deniadol i fyw, gweithio ac ymweld â hwy. Y nod yw hybu bioamrywiaeth, cefnogi gweithgareddau gwirfoddoli a chreu gwell mynediad i gefn gwlad. Bwriad y Prosiect yn y pen draw yw creu mwy o ymdeimlad o les cymunedol, galluogi cymunedau i wella cyflwr eu hardal leol, datblygu gwell cydnabyddiaeth o'u hardal leol a chryfhau'r cysylltiad gyda'r amgylchedd naturiol.

Mae cymorth ariannol ar gael i gefnogi gwelliannau amgylcheddol a'r gwaith o hyfforddi a datblygu gwirfoddolwyr. O ran graddfa'r gefnogaeth, mae'r cynllun yn cefnogi gwaith gwelliannau amgylcheddol hyd at £30,000 a hyd at £3,500 tuag at ddatblygiad gwirfoddolwyr.

Bydd y prosiect yn canolbwyntio ar chwe phrosiect cymunedol, caiff eu dewis drwy broses ymgeisio agored ar draws Môn a rhan o Arfon yng Ngwynedd. Mae'r cynllun yn cael ei ariannu drwy'r Gronfa Galluogi Adnoddau Naturiol a Llesiant yng Nghymru (EnRaW) a'u gydlynu gan Menter Môn.

Am fwy o wybodaeth ewch at dudalennau cyfryngau cymdeithasol ni, neu ebostio monamenai@mentermon.com

